# Gyrru parau o geffylau harnais ar gyfer ymarfer, ffitrwydd a hyfforddi

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gallu gyrru parau o geffylau harnais ar gyfer ymarfer, ffitrwydd a hyfforddi. Mae'n cynnwys gallu gyrru parau o geffylau harnais yn gywir ac yn effeithiol mewn ardal gaeëdig, ar lwybrau oddi ar y ffordd a thraws gwlad yn ogystal â gallu gyrru'n ddiogel ar y briffordd gyhoeddus.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. dewis yr harnais a'r cerbydau sy'n cael eu tynnu gan geffylau sy'n briodol ar gyfer y ceffyl ac at y defnydd a fwriedir
3. cynnal gwiriadau diogelwch cyn gyrru fel mater o drefn, harneisio'r ceffyl a'i gysylltu â'r cerbyd
4. gyrru parhau o geffylau harnais ar gyfer ymarfer, ffitrwydd a hyfforddi
5. gyrru gan drin y ffrwyn gan ddefnyddio Arddull Hyfforddi Saesnig
6. defnyddio'r chwip gyrru yn gywir ac yn briodol
7. cymryd camau priodol wrth yrru o amgylch cerddwyr, cŵn, da byw, peiriannau ac wrth ddod ar draws gwrthrychau, gweithgareddau neu synau anarferol
8. gyrru i fyny ac i lawr graddiant yn gywir
9. aros a symud i ffwrdd yn llyfn ar ôl aros
10. gwneud defnydd effeithiol o'r gwas ceffyl harnais
11. cadw rheolaeth dros y ceffylau bob amser
12. gyrru parhau o geffylau harnais mewn cwmni gyda cheffylau eraill
13. lleihau straen ar y ceffyl wrth yrru
14. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. eich rôl a'ch cyfrifoldeb mewn perthynas â gyrru parau o geffylau harnais ar gyfer ymarfer, ffitrwydd a hyfforddi
3. sut i ddewis yr harnais a cherbydau sy'n cael eu tynnu gan geffylau sy'n briodol i'r ceffylau a'r defnydd a fwriedir
4. sut i gynnal eich diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffylau, tra'n gyrru
5. sut i adnabod arwyddion straen a salwch yn y ceffyl a sut i ddileu neu leihau'r rhain wrth yrru
6. sut i gadw rheolaeth dros y ceffylau tra'n harneisio, gosod/cymryd allan, gyrru a thra'n sefyll
7. sut i wneud defnydd effeithiol o'r gwas ceffylau harnais
8. sut i yrru gan ystyried defnyddwyr eraill y ffordd a chyfathrebu gyda nhw'n effeithiol
9. sut i gyflawni cyfres o symudiadau gyrru mewn ardal gaeëdig at ddibenion ffitrwydd, hyfforddiant neu ymarfer
10. sut i gadw rheolaeth dros y ceffylau sy'n cael eu gyrru mewn ystod o sefyllfaoedd
11. sut i adnabod arwyddion o draul neu niwed i'r harnais neu'r cerbyd tra'n gyrru, a pha gamau i'w cymryd
12. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
13. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

LANEq341

Gyrru parau o geffylau harnais ar gyfer ymarfer, ffitrwydd a hyfforddi

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq341 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; harnais; gyrru |